

LLOYD-JONES, JOHN (1885 - 1956), ysgolhaig a bardd

Enw: John Lloyd-jones
Dyddiad geni: 1885
Dyddiad marw: 1956
Priod: Freda Lloyd-Jones (née Williams)
Rhiant: Dorothy Lloyd-Jones
Rhiant: John Lloyd-Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig a bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: Thomas Parry

Ganwyd 14 Hydref 1885, yn fab i John a Dorothy Lloyd-Jones, Cartrefle, Dolwyddelan, Sir Gaernarfon. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Llanrwst, a Choleg y Brifysgol, Bangor, lle graddiodd yn 1906, a chafodd M.A. Prifysgol Cymru yn 1909. Cymerodd radd B.Litt. Rhydychen o Goleg Iesu, a bu'n astudio gyda Rudolf Thurneysen ym Mhrifysgol Freiburg. Penodwyd ef yn bennaeth cyntaf yr Adran Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Dulyn, a daliodd y swydd nes ymdddeol yn 1955. Bu'n arholwr allanol yn y Gymraeg i Brifysgol Cymru o 1916 hyd 1955.

Fel ysgolhaig ysgrifennodd Lloyd-Jones nodiadau ar ystyron geiriau Cymraeg i *Fwletin* y Bwrdd Celtaidd a'r *Zeitschrift für celtische Philologie*. Yn 1921 enillodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon am draethawd ar ystyron enwau lleoedd yn y sir. Cyhoeddwyd y gwaith, wedi ei helaethu, yn 1928 dan y teitl *Enwau lleoedd sir Gaernarfon*. Er bod astudio enwau lleoedd wedi symud ymlaen lawer er pan ysgrifennwyd y llyfr hwn, y mae iddo werth o hyd, ac yn ei ddydd ei hun ef oedd yr unig astudiaeth o'r fath yng Nghymru a wnaed yn ôl safonau ysgolheictod diweddar. Yn 1924 gofynnwyd i Lloyd-Jones gan Fwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru fynd yn gyfrifol am yr eirfa i waith y Gogynfeirdd y bwriedid ei chyhoeddi. Daeth y rhifyn cyntaf allan yn 1931, yn 96 o dudalennau cynhwysfawr, dan y teitl *Geirfa barddoniaeth gynnar Gymraeg*, a gwelwyd fod yr awdur wedi cynnwys cannoedd o gyfeiriadau at farddoniaeth Gymraeg cyn cyfnod y Gogynfeirdd a hefyd gweithiau beirdd yr uchelwyr a rhyddiaith y cyfnod canol. Gyda phob rhan a gyhoeddwyd yr oedd cylch y darllen yn ehangu. Daeth y seithfed ran allan yn 1952, yr olaf i'r awdur ei goruchwylio trwy'r wasg, oherwydd yr oedd ef wedi marw pan ymddangosodd yr wythfed ran yn 1963. Y gair olaf a gynhwyswyd oedd *heilic*. Y mae'r gwaith hwn yn enghraifft wych o ysgolheictod Cymraeg ar ei orau. Yn ychwanegol at y llafur enfawr yr oedd yn rhaid wrtho i gasglu'r defnydd ac i ddsbarthu ffurfiau (e.e. ffurfiau berfol), y mae'n dangos hefyd ddawn arbennig i ddarganfod ystyr neu ystyron gair tywyll ac i ddsbarthu'r rheini pan fo angen. Y mae trylwyredd y gwaith yn rhyfeddol. Er enghraifft, fe groniclir tri ar hugain o wŷr o'r enw Dafydd, a nodi, hyd y gellir hynny, pwy yn union oedd pob un. Mae'r *Eirfa* o werth amhrisiadwy i ddeall llenyddiaeth y cyfnod canol, ac fe bery felly eto. Y gresyn mawr yw na fuasai cynllun yr awdur wedi caniatáu iddo orffen y gwaith. Yr oedd Darlith Goffa John Rhŷs, a draddododd Lloyd-Jones i'r Academi Brydeinig yn 1948, 'The court poets of the Welsh princes', yn ganlyniad yr wybodaeth fanwl o waith y Gogynfeirdd a enillodd ef wrth ddarllen ar gyfer yr *Eirfa*.

Yr oedd i Lloyd-Jones safle anrhydeddus fel bardd yn y mesurau caeth. Enillodd y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhydaman yn 1922 am ei awdl 'Y Gaeaf', cerdd delynegol, goeth ei mynegiant a chywrair iawn ei hadeiladwaith. Cyhoeddwyd cerddi o'i waith yn *Y Llenor* yn 1930, 1942, 1949 ac 1950, pob un yn drwyadl draddodiadol o ran naws a mydryddiaeth, ac yn wych fel barddoniaeth yn aml. Y mae casgliad o'i gerddi yn ei law ef ei hun yn llyfrgell Coleg y Brifysgol, Bangor. Yn 1925 cyhoeddodd Gwasg Gregynog y gyfrol *Caneuon Ceiriog: Detholiad*. Lloyd-Jones a ddetholodd y cerddi, ac fe ysgrifennodd 'Ragarweiniad' sy'n draethawd beirniadol ar waith y bardd. Cafodd radd D.Litt. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1948.

Gŵr mwyn a charedig ei air a'i natur oedd Lloyd-Jones. Er treulio cyfnod maith yn Iwerddon ni chollodd ddim o'r nodweddion hynny a gafodd o'i gefndir Ymneilltuol yng Nghymru. Bu am flynyddoedd yn un o brif gynheiliaid capel Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Nulyn, nes dirwyn yr achos i ben.

Priododd Freda Williams, Bangor, yn 1922. Bu farw 1 Chwefror 1956, a chladdwyd ef ym Mryn-y-bedd, Dolwyddelan.

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonellau

Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg (1931), Rhagair rhan viii (1963)

[*Baner ac Amserau Cymru*, 15 Chwefror 1956

Ãtudes Celtiques, 7 (1956), 482-3

Y Traethodydd, 111 (1956)]

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Lloyd-Jones

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 243016708

Wikidata: Q13129341

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Arddull APA



Parry, T., (1997). LLOYD-JONES, JOHN (1885 - 1956), ysgolhaig a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 26 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-LLOY-JOH-1885>

Diwylliant

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Governed by
Welsh Government